# Gobeithion i Gymru

## Canllaw i athrawon/rheiny sy'n arwain grwpiau

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Trosolwg o'r arolwg

Arolwg cenedlaethol yw arolwg Gobeithion i Gymru, a fydd yn galluogi Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru, i bennu blaenoriaethau a chynllun gwaith ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Mae arolygon wedi'u gwahaniaethu ar gael ar gyfer amrywiol grwpiau oed a galluoedd:

- Gweithdy gyda "doli" ar gyfer plant 2-3 oed
- Gweithdy stori i blant 4-7 oed
- Arolwg ar-lein i blant 7-11 oed
- Arolwg ar-lein i bobl ifanc 12-18 oed
- Arolwg ar-lein darllen hwylus gyda symbolau Widgit ar gyfer pobl ifanc ag ADY
- Gweithdy ar gyfer pobl ifanc ag ADY sy'n cael trafferth cwblhau'r arolwg yn annibynnol
- Gweithdy yn defnyddio technoleg 'eye gaze' / fframiau 'e-tran' ar gyfer pobl ifanc â PMLD
- Fersiwn BSL o'r arolwg

Rydyn ni hefyd yn gofyn barn rhieni/gofalwyr a phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn arolwg ar-lein. Efallai byddwch yn dymuno cwblhau y naill neu'r llall o'r arolygon hyn eich hun yn ogystal.

# Pwyntiau cyffredinol

- Mae'r arolwg ar-lein yn rhoi opsiynau ar gyfer 7-11 oed, 12-18 oed neu arolwg gyda symbolau. Efallai byddwch am ddweud wrth eich dosbarth/grŵp pa arolwg dylen nhw glicio arno.
- Efallai byddai'n well gan rai plant ag ADY wneud ein fersiwn darllen hwylus o'r arolwg, sydd yn defnyddio symbolau Widgit i gefnogi'r testun. Efallai bydd gennych chi rai plant yn eich dosbarth/grŵp a fyddai'n elwa o ddefnyddio'r fersiwn yma.
- Mae'r arolwg 7-11 oed yn cynnwys clipiau sain sy'n darllen y cwestiynau a'r opsiynau'n uchel.
- Gallwch chi ddewis cwblhau'r arolwg fel dosbarth neu grŵp, a mynd trwy'r cwestiynau fesul un.
- Gallwch chi ddewis darllen y cwestiynau'n uchel a'u hesbonio mewn ffordd sy'n addas i'ch dosbarth neu eich grŵp.
- Os ydych chi'n defnyddio Chromebooks, efallai bydd y bar ar waelod y sgrîn yn cuddio botymau'r arolwg. Trwy newid i sgrîn lawn, dylech chi fedru gweld y dudalen gyfan. Os nad yw hynny'n gweithio, efallai bydd angen i chi leihau maint y sgrîn.

# Cyn cychwyn yr arolwg

- Atgoffwch y dosbarth/grŵp fod dim atebion cywir neu anghywir a bod yr arolwg yn gofyn eu barn.
- Atgoffwch y dosbarth/grŵp y gallai rhai o'u hatebion fod yn wahanol i'r person sy'n eistedd nesa atyn nhw neu eu ffrindiau, a rhowch sicrwydd iddyn nhw fod hynny'n iawn.
- Gall plant hepgor unrhyw gwestiynau sydd ddim yn berthnasol neu dydyn nhw ddim eisiau eu hateb.
- Dydyn ni ddim yn gofyn am eu henw.

# Anawsterau cyffredin gyda chwestiynau arolwg

Os yw plant yn cael trafferth ateb rhai cwestiynau, efallai byddwch chi am newid geiriad y cwestiwn fel eu bod nhw'n deall, neu greu cysylltiad â rhywbeth maen nhw wedi'i wneud yn ddiweddar yn y dosbarth/grŵp.

*Pryderon:*

Os yw plentyn yn cael anhawster gyda'r opsiwn "profion/arholiadau", efallai byddwch chi am roi enghraifft o asesiad maen nhw wedi'i wneud yn ddiweddar e.e. Rhifau Rhyfeddol, prawf sillafu, TGAU

*Cael gwrandawiad:*

Os yw plant yn cael trafferth deall pwy yw'r "bobl sy'n rhedeg y wlad neu'r ardal leol", efallai byddwch chi am roi rhai enghreifftiau, e.e. Mark Drakeford, eich Aelod Senedd lleol neu eich Aelod Senedd yn San Steffan.

*P'un sy'n dy ddisgrifio di (Ethnigrwydd)*

Os bydd plant yn cael anhawster gyda'r cwestiwn yma efallai byddwch chi am eu hatgoffa ei fod yn holi am eu hunaniaeth bersonol a sut bydden nhw'n disgrifio eu hunain. Gallwch chi egluro hefyd bod modd iddyn nhw ddewis disgrifio'u hunain mewn ffordd arall neu beidio ateb y cwestiwn o gwbl.

*Beth yw dy grefydd?*

Esboniwch fod rhai plant a'u teuluoedd yn dilyn crefydd benodol, ond nad yw hynny'n wir am bawb. Gallwch chi nodi hefyd eu bod nhw'n gallu dewis peidio ateb y cwestiwn o gwbl.

*Wyt ti'n ffoadur neu'n geisiwr lloches?*

Ffoadur yw rhywun sydd wedi ffoi o'u gwlad eu hun oherwydd bod perygl i'w diogelwch. Mae gan ffoaduriaid hawl i amddiffyniad rhyngwladol. Ceisiwr lloches yw rhywun sydd wedi gadael eu gwlad ac sy'n chwilio am amddiffyniad rhag erledigaeth, ond sydd heb gael eu cydnabod yn gyfreithiol fel ffoadur eto, ac sy'n disgwyl am benderfyniad ar eu hawliad lloches.

Mewn profion, defnyddiodd ein staff ffoaduriaid o Wcrain yn gadael y wlad oherwydd y rhyfel yn enghraifft oedd yn helpu'r plant i ddeall y cwestiwn.

*P'un sy'n eich disgrifio chi? (Addysg)*

Mae'r cwestiwn yma'n gofyn ble mae plant yn derbyn eu haddysg.

Mae 'gartref' yn opsiwn i blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysg gartref, heb fynd i'r ysgol.

Yn yr arolwg 12-18, bydd pobl ifanc yn gallu dewis 'Rhywle arall (fel UCD neu EOTAS)'. Os ydych chi'n athro/arweinydd grŵp mewn darpariaeth amgen, efallai byddwch chi am ddweud wrth y bobl ifanc am ddewis yr opsiwn yma.

# Cwestiynau Monitro (Amdanaf Fi/Amdanat Ti)

Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn gadael i ni weld oes gan unrhyw grwpiau penodol o blant neu bobl ifanc bryderon arbennig, neu a oes angen cefnogaeth ychwanegol arnyn nhw.

Er enghraifft, dangosodd y cwestiynau monitro yn ein harolwg diwethaf ar raddfa fawr, 'Coronafeirws a Fi', fod plant a phobl ifanc anabl a phlant a phobl ifanc o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael profiadau negyddol o'r cyfnod clo. O ganlyniad, roedden ni'n gallu defnyddio'r wybodaeth yma i alw am fwy o gefnogaeth i'r grwpiau yma o blant.

Gallwch chi atgoffa'r plant fod dim rhaid iddyn nhw ateb y cwestiynau yma, os dydyn nhw ddim eisiau.

# Cysylltiadau â hawliau

Mae cwblhau'r arolwg yma yn cefnogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i'r hawliau canlynol:

- Erthygl 1: Mae gan bawb o dan 18 oed yr hawliau yma.
- Erthygl 2: Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn, beth bynnag sy'n digwydd. Dylai pob plentyn gael eu trin yn gyfartal.
- Erthygl 3: Dylai oedolion bob amser wneud beth sydd orau i ti.
- Erthygl 4: Dylai'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr hawliau yma.
- Erthygl 12: Mae gen ti hawl i gael gwrandawiad ac i gael dy gymryd o ddifri.
- Erthygl 13: Mae gen ti hawl i gael gwybodaeth a'i rhannu, a dweud beth yw dy farn.
- Erthygl 19: Mae gen ti hawl i gael dy amddiffyn rhag niwed neu gamdriniaeth.
- Erthygl 28: Mae gen ti hawl i gael addysg.
- Erthygl 29: Mae gen ti hawl i fod y gorau rwyt ti'n gallu bod. Rhaid i addysg dy helpu i ddatblygu dy sgiliau a'th ddoniau yn llawn.

# Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Iechyd a Llesiant:

- Mae sut rydyn ni'n prosesu ac yn ymateb i'n profiadau yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n llesiant emosiynol.
- Mae'r penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud yn effeithio ar safon ein bywydau ni a bywydau pobl eraill.
- Mae sut rydyn ni'n ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn effeithio ar bwy ydyn ni a'n hiechyd a'n llesiant.

Dyniaethau:

- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac yn cael eu ffurfio gan weithredoedd a chredoau dynol.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd mae'r ddynoliaeth yn eu hwynebu, ac yn gallu cymryd camau pwyllog, egwyddorol.

# Diolch yn fawr

Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg. Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon, gallwch chi gysylltu â'n swyddfa ar 01792 765600 neu post@complantcymru.org.uk.

Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales